Bannau Brycheiniog

# RHEOLWR PROSIECT TIRWEDDAU'R GYLFINIR CYMRU

GRADDFA 9 £39,152 - £41,771

CONTRACT CYFNOD PENODOL- 31 MAWRTH 2029

37 AWR Y WYTHNOS

DYDDIAD CAU:20 EBRILL 2026



#NATURENETWORKS

Cronfa Treftadaeth Heritage Fund

Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government


# CEFNDIR

Dynodwyd Parciau Cenedlaethol er mwyn gwarchod ardaloedd hyfryd er budd y genedl. Fe'u crëwyd yn sgil Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, a roddodd fframwaith deddfwriaethol ar waith ar gyfer sefydlu Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr.

Dynodwyd y ddau Barc Cenedlaethol cyntaf ym 1951 ac ym 1957 dynodwyd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a oedd yn cwmpasu ardal o tua 520 milltir sgwâr (1346 cilometr sgwâr). Tan 1995, roedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gydbwyllgor o'r Cynghorau Sir ar y pryd tan i Ddeddf Amgylchedd 1995 gyflwyno deddfwriaeth newydd a oedd yn sefydlu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn Awdurdodau Lleol annibynnol, gyda diben arbennig.







RHEOLWR PROSIECT TIRWEDDAU'R GYLFINIR CYMRU

# Y PROSIECT

Rydym yn chwilio am reolwr prosiect profiadol a chymwys addas i arwain prosiect Curlew Landscapes Wales (Tirweddau Gylfinir Cymru) am gyfnod tair blynedd y prosiect. Bydd Rheolwr y Prosiect yn llysgennad ar gyfer Gylfinir Cymru, gan yrru'r prosiect ymlaen, gan gysylltu â Phartneriaeth Gylfinir Cymru - a mynd ar drywydd amcanion a osodwyd yng Nghynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Adfer y Gylfinir.

Rydym yn edrych i recriwtio rheolwr prosiect brwdfrydig a chymhellol iawn i gefnogi a gwella datblygiad, rheoli a chyflwyno Tirweddau Gylfinir Cymru o'i gychwyn hyd at ei gwblhau'n llwyddiannus.

Byddwch yn helpu i sicrhau bod y prosiect yn cael ei reoli mewn ffordd systematig a chyson i sicrhau canlyniadau o ansawdd uchel. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi datblygu prosiectau newydd (dylunio, cynllunio, ceisiadau am gyllid), datblygu achosion busnes, cynlluniau prosiectau, rheoli contractau ac ariannol, rheoli adnoddau, adrodd, monitro, cyfathrebu, ymgysylltu, rheoli a gwerthuso partneriaeth, a chaffael.

Byddwch yn gweithio gyda Grŵp Llywio Tirweddau'r Gylfinir Cymru a Bwrdd Rheoli Prosiect i ddarparu cefnogaeth, gwybodaeth a chyngor i gynorthwyo gweithrediad y Bwrdd i gyflawni ei amcanion a'i flaenoriaethau strategol. Byddwch yn gweithio gyda'n partneriaid rhaglen i sicrhau cysondeb ac integreiddio cynllunio, adrodd a gweithredu adnoddau ar draws y sefydliad.

Dylai ymgeiswyr fod â phrofiad o weithio ar y cyd ar draws sefydliadau a rhanddeiliaid, a bod â phrofiad blaenorol o ddatblygu a chyflawni prosiectau llwyddiannus.

Rydym yn awyddus i glywed gan ymgeiswyr sy'n rhannu ein hymrwymiad i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i boblogaethau, cymunedau a'r amgylchedd ar draws ardal y prosiect.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus wedi'i leoli ym Mhencadlys yr Awdurdod yn Aberhonddu, ond rydym yn gweithredu trefniadau gweithio hyblyg ac anogir cydbwysedd gwaith/bywyd. Mae rhestr lawn o'r dyletswyddau a'r gofynion wedi'u nodi yn y Disgrifiad Swydd a Manyleb y Person.

Mae'r Gylfinir Ewrasiaidd – yr IUCN wedi'i restru fel "Bron dan Fygythiad" – yn un o'r blaenoriaethau cadwraeth adar uchaf yng Nghymru. Heb ymyrraeth frys, mae ei dirywiad cyflym a pharhaus yn golygu y gallai ddiflannu fel rhywogaeth fridio Cymreig o fewn wyth mlynedd.

Mae Tirweddau'r Gylfinir Cymru yn brosiect newydd mawr a ddatblygwyd i helpu i wrthdroi'r dirywiad hwn a sicrhau bod gan gylfinir bridio ddyfodol o fewn tirwedd Cymru.

Wedi'i ariannu drwy'r Gronfa Rhwydweithiau Natur (Rownd pump) drwy Lywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, bydd Tirweddau'r Gylfinir Cymru yn targedu gwaith adfer a bydd yn canolbwyntio ar draws dwy Ardal Bwysig y Gylfinir yng Nghymru: Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Thirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Mae'r swydd hon ar gyfer Rheolwr Prosiect brwdfrydig a hunan-gymhellol, a gyflogir gan bartner arweiniol y Prosiect (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) ar gontract tymor penodol tair blynedd o Mai 2026 i fis Mawrth 2029.

### RHEOLWR PROSIECT TIRWEDDAU'R GYLFINIR CYMRU

## BETH MAE PARCIAU CENEDLAETHOL YN EI WNEUD?

Mae gan Barciau Cenedlaethol ddau ddiben. Yn gyntaf, maent yn gwarchod a gwella amgylchedd naturiol a diwylliannol y parc, ac yn ail maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth a mwynhad o'i briodweddau arbennig. Mae'r priodweddau arbennig hyn wedi'u disgrifio fel:

- y dirwedd a'r harddwch naturiol
- yr heddwch a'r llonyddwch
- cyfleoedd i gerdded a mynediad i gefn gwlad agored
- mannau agored a'r ansawdd bellennig
- tir amaeth sy'n cael ei reoli'n draddodiadol,
- bywyd gwyllt

Drwy wneud hyn, mae gan y Parciau Cenedlaethol ddyletswydd hefyd i feithrin lles cymdeithasol ac economaidd y cymunedau o fewn y Parc.

Wrth gyflawni eu dibenion a'u dyletswydd, mae gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol bum swyddogaeth allweddol, sef:

1. gweithredu fel Awdurdod Cynllunio
2. gweithredu fel Awdurdod perthnasol ar gyfer mynediad i gefn gwlad agored o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy
3. hwyluso rhaglenni amgylcheddol
4. darparu gwybodaeth i'r cyhoedd, dehongliadau a gwasanaethau addysg
5. darparu cronfa datblygu cynaliadwy ar ran Llywodraeth Cymru.





## RHEOLWR PROSIECT TIRWEDDAU'R GYLFINIR CYMRU

# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cynnwys 18 aelod, 12 a enwebwyd gan y saith Awdurdod Lleol yn yr ardal ac 6 a enwebwyd gan Weinidog dros yr Amgylchedd, Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddwy garfan yn helpu i sicrhau bod buddiannau lleol a chenedlaethol yn cael eu cynrychioli ar lefel Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae amrywiol bwyllgorau allweddol yn gyfrifol am reoli busnes yr Awdurdod. Hefyd, mae gweithgorau a grwpiau cynghori - mewnol ac allanol - wedi'u sefydlu i lywio'r broses benderfynu. Cyflogir tua 110 o staff cyfwerth â llawn amser mewn dwy Gyfarwyddiaeth - Cynllunio a Lle a Adfer Natur a Newid Hinsawdd, yn ogystal ag Adran y Prif Weithredwr - Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu, Cyllid, TG, Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ac Adnoddau Dynol. Mae staff ac Aelodau'n gyfrifol am ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau a rôl allweddol swyddogion yw darparu cyngor ac arweiniad i Aelodau'r Awdurdod i'w helpu i wneud penderfyniadau a phennu'r weledigaeth a'r strategaethau ar gyfer yr Awdurdod.

Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yw dogfen strategol allweddol yr Awdurdod ac mae'n datgan ein nodau, ein hamcanion strategol a'r Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu ar gyfer yr Awdurdod (www.beacons-npa.gov.uk). Yn ogystal â'r ddogfen hon, mae gennym Gynllun Datblygu Unedol wedi'i gymeradwyo (www.beacons-npa.gov.uk) sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer datblygu yn y dyfodol o fewn y Parc Cenedlaethol ac rydym wrthi'n datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Awdurdod hefyd yn datblygu ei Adroddiad ar Gyflwr y Parc, a fydd yn crynhoi statws newidiol asedau amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yn y Parc. Gan fod gennym gyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo am gynnal a chadw a rheoli Hawliau Tramwy, rydym yn gweithredu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy'r Awdurdod.

Mae Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr yn dirweddau gwarchodedig Categori V fel y diffinnir gan UNeb Rhyngwladol Cadwraeth Natur IUCN). Mae hyn yn cydnabod cyfranogiad pobl yn y gwaith o lunio'r tirweddau. Fel pob Parc Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr, mae amaethyddiaeth yn ddylanwad mawr ar y ffordd y mae'r dirwedd yn cael ei rheoli. Mae sector ffermio hyfyw, proffidiol, eangfrydig ac arloesol, sy'n cydweithio'n agos â chymunedau'r Parc, busnesau lleol a chyrff cyhoeddus a gwirfoddol yn hollbwysig wrth reoli'r dirwedd yn y dyfodol. Bydd hyblygrwydd a'r gallu i addasu yn briodweddau pwysig wrth fynd i'r afael â heriau newid hinsawdd, dulliau o leihau'r defnydd o ynni a newidiadau demograffig a chymdeithasol yn y dyfodol.

## RHEOLWR PROSIECT TIRWEDDAU'R GYLFINIR CYMRU

# DISGRIFIAD SWYDD

Dynodiad Swydd: Rheolwr Prosiect Tirweddau'r Gylfinir Cymru
Gradd: 9
Yn atebolol i: Ecolegydd

**Pwrpas y Swydd:**

- Rheoli datblygiad a chyflwyno rhaglen Tirweddau'r Gylfinir Cymru drwy gychwyn, gweithredu, monitro ac adolygu, gan gynnwys rheoli risgiau a materion cysylltiedig ac adrodd a lledaenu cynhwysfawr.
- Darparu arbenigedd mewn rheoli rhaglenni a phrosiectau gan sicrhau bod y prosiect yn cael ei gynllunio a'i gyflawni ar amser, o fewn y gyllideb ac i'r canlyniadau y cytunwyd arnynt.
- Gweithio ar y cyd ar draws y sefydliad, partneriaid y prosiect a chyda rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau rheolaeth ac effeithiol y prosiect o ansawdd uchel hwn.

**Y Bartneriaeth**

Mae Tirweddau'r Gylfinir Cymru yn brosiect ar y cyd rhwng Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Thirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy gyda chefnogaeth ehangach Partneriaeth Gylfinir Cymru - Gylfinir Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Gylfinir Cymru: https://www.curlewwales.org/



**RHEOLWR PROSIECT TIRWEDDAU'R GYLFINIR CYMRU**

# DISGRIFIAD SWYDD

**Ein gweledigaeth**

Nod y prosiect hwn yw cyflawni'r amcanion a nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Adfer y Gylfinir mewn dwy Ardal Gylfiniir Bwysig (ICAs) a nodwyd yn y Cynllun. Bydd gwaith adfer y gylfinir yn cael ei dargedu yn y rhain am gyfnod o dair blynedd o Mai 2026 i fis Mawrth 2029.

Drwy brosiect Tirweddau'r Gylfinir Cymru byddwn yn:

- Cynyddu'r ddealltwriaeth o bwysigrwydd a sefyllfa bridio'r gylfinir yng Nghymru drwy ddatblygu a gweithredu ffyrdd o weithio gyda chymunedau lleol o fewn rhwydwaith ICA, tirweddau ac yn ehangach ledled Cymru.
- Gwneud y mwyaf o gyflawni mesurau ymyrraeth sydd wedi'u cynllunio i gynyddu nifer y cywion gylfinir. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy gyfuniad o ymyriadau wedi'u targedu.
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd gwirfoddoli, megis datblygu rhaglenni monitro ac ymwybyddiaeth i ddiogelu'r gylfinir ar draws ardal y prosiect.

**Gyda phwy fyddwch chi'n gweithio?**

Byddwch yn cael eich cyflogi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a byddwch yn adrodd i'r Ecolegydd. Bydd disgwyl i chi weithio'n agos gyda gwahanol adrannau o fewn yr Awdurdod a byddwch yn cysylltu'n uniongyrchol â'r tîm cyllid.

Bydd dau Swyddog Gylfinir a Phobl, dau Swyddog Cynorthwyol y Gylfinir a phobl a dwy swydd Swyddog Cymunedol ac Ymgysylltu rhan-amser ar draws ardal y prosiect cyfan fel rhan o dîm Tirweddau'r Gylfinir Cymru. Byddant yn cael eu cyflogi, ac yn cael eu rheoli gan y sefydliadau lletyol. Bydd y swyddi hyn wedi'u lleoli yn y meysydd canlynol:

- Swyddog Gylfinir a Phobl Mynyddoedd De Clwyd (ICA 5) a gynhelir gan dirwedd genedlaethol Bryniau Clwyd
- Swyddog Gylfinir a Phobl ar gyfer Bannau Brycheiniog (ICA 12) a thu hwnt a gynhelir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Swyddog Cynorthwyol Gylfinirir a phobl ar gyfer Mynyddoedd De Clwyd (ICA 5) a gynhelir gan dirwedd genedlaethol Bryniau Clwyd
- Swyddog Cynorthwyol Gylfinirir a phobl Bannau Brycheiniog (ICA 12) a gynhelir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Swyddog Cymunedau ac Ymgysylltu rhan amser ar gyfer Mynyddoedd De Clwyd (ICA 5) a gynhelir gan Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd
- Swyddog Cymunedau ac Ymgysylltu rhan amser ar gyfer Bannau Brycheiniog (ICA 12) a thu hwnt a gynhelir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Bydd gofyn i chi hefyd adeiladu a datblygu rhwydwaith eang o bobl sy'n barod i weithio tuag at wella cadwraeth gylfinir ar dir y maent yn berchen arno neu'n ei reoli, gan eu helpu i ddeall a mabwysiadu arferion gorau mewn adfer y gylfinir.

## RHEOLWR PROSIECT TIRWEDDAU'R GYLFINIR CYMRU

## ATEBOLRWYDD A CHYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

- Bydd y Rheolwr Prosiect yn cydlynu cynllun gwaith dau swyddog Gylfinir a Phobl a dau Swyddog Cylfinir a Phobl cynorthwyol a fydd yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o gymunedau gwledig, hyrwyddwyr lleol, tirfeddianwyr, ffermwyr, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd ehangach ar draws ardal y prosiect.
- Sicrhau bod amcanion prosiect a rhaglen yn cael eu cyflawni o fewn y gyllideb, ar amser ac i'r safon a'r ansawdd sy'n ofynnol.
- Hyrwyddo a dangos y defnydd o arfer gorau mewn methodolegau rheoli prosiectau a rhaglenni e.e., datblygu cynlluniau prosiect priodol, dogfennaeth prosiect gan gynnwys cynhyrchu strategaeth codi arian, dogfennau cychwyn prosiectau, strategaeth werthuso, strategaeth ymadael, cynlluniau prosiect, logiau risgiau a materion, cyllidebau prosiectau, adroddiadau monitro, cynlluniau cyfathrebu, ac ati.
- Cefnogi llywodraethu prosiectau gan sicrhau bod pob prosiect yn cael ei gynllunio, ei reoli, ei fonitro a'i adrodd yn unol â gofynion adrodd a llywodraethu'r Awdurdod.
- Mae'r prosiect yn rheoli cyflawni'r prosiect yn erbyn amcanion a osodwyd yng Nghynllun y Prosiect, tra'n coladu gwybodaeth a chyflwyno hawliadau ac adroddiadau i NLHF.
- Byddwch yn gyfrifol am gyllidebau prosiect ac ymgymryd ag unrhyw gaffael, gan sicrhau bod Rheolau Sefydlog Ariannol a/neu unrhyw ofynion cyllido eraill yn cael eu cadw.
- Datblygu ac arwain y rhaglen waith ar gyfer pob un o staff y prosiect o fewn targedau ariannol clir a osodwyd ar gyfer pob ICA.
- Sicrhau bod y tîm prosiect yn cael adnoddau a chefnogaeth briodol, gan aseinio tasgau/camau gweithredu i'r tîm prosiect a sicrhau bod y rhain yn cael eu cwblhau ar amser.
- Gweithredu fel cyfryngwr rhwng Grŵp Llywio'r Prosiect a Bwrdd y Prosiect
- Sicrhau bod systemau cadarn o lywodraethu prosiectau (e.e. ansawdd, ariannol, staff, archwilio, rheoli data, iechyd a diogelwch a rheoli risg) ar waith.
- Atebol am drafodion ariannol prosiect ac adrodd. Cysylltu'n agos â thîm cyllid Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
- Sicrhau bod canlyniadau a gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu'n briodol yn allanol, ar draws y sefydliadau partneriaeth, Llywodraeth Cymru a gyda rhanddeiliaid Gylfinir Cymru
- Arwain a datblygu mesurau ymyrraeth sydd wedi'u cynllunio i gynyddu cynhyrchiant y gylfinir yn ardal y prosiect a chynnaleiriolaeth gref ac effeithiol ar gyfer adferiad y gylfinir a'i fanteision cysylltiedig ledled Cymru.
- Creu cysylltiadau cryf rhwng y prosiect a chymunedau lleol, gan hyrwyddo amcanion adfer y gylfinir ac annog cydweithrediadau cymunedol deinamig sydd o fudd i'r gylfinir
- Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cymunedau gwledig o fewn ardaloedd y prosiect a rhannu digwyddiadau, canlyniadau a chyflawniadau'r prosiect i'r byd ehangach trwy sianeli sydd ar gael gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol.
- Datblygu cyngor arfer gorau i randdeiliaid prosiect a chyfathrebu trwy wahanol sianeli gan gynnwys rhaglen o ddigwyddiadau, hyfforddiant ac arweiniad.
- Cydweithio â Phartneriaeth ehangach Gylfinir Cymru - Gylfinir Cymru, gan helpu'r bartneriaeth i gyflawni'r amcanion a nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Adfer y Gylfinir (sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd).
- Cefnogi egwyddorion ac arferion cyfle cyfartal fel y nodir ym Mholisi Cyfle Cyfartal y Parciau Cenedlaethol.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill a allai fod yn rhesymol yn ofynnol yn gymesur â gradd neu lefel gyffredinol cyfrifoldeb y swydd.

**RHEOLWR PROSIECT TIRWEDDAU'R GYLFINIR CYMRU**

# MANYLEB PERSON

I fod yn ymgeisydd llwyddiannus, bydd gennych radd neu gymhwyster cyfatebol mewn disgyblaeth berthnasol a phrofiad y gellir ei brofi o weithio ar brosiectau a ariennir yn allanol ar raddfa fawr.

**Hanfodol**

- Hanes y gellir ei brofi o reoli prosiectau, gan gynnwys rheoli cyllideb a chyllid, rhaglennu ariannol manwl, rhaglennu gwaith a phrofiad o wneud cais am gyllid ar gyfer gwaith cadwraeth
- Profiad a hanes sylweddol o reoli cyflwyno prosiectau / rhaglenni o ansawdd uchel
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o arferion rheoli prosiectau, systemau, prosesau a gweithdrefnau
- Record waith o gyflawni safonau uchel yn gyson a chyflawni amcanion a blaenoriaethau
- Rheoli perthynas dda a'r gallu i feithrin cydweithio ar draws ffiniau tîm a gyda rhanddeiliaid i gyflawni nodau prosiect a strategol a threfnu a hwyluso prosesau cyfranogol aml-randdeiliaid.
- Gwybodaeth weithredol / dealltwriaeth dda o arferion amaethyddol Cymru.
- Profiad o reoli a chyflawni prosiectau cadwraeth a / neu brosiectau gyda phriodoleddau gwyddonol.
- Profiad o'r amgylchedd codi arian bioamrywiaeth ac o reoli grantiau a
- partneriaethau ariannu.
- Sgiliau gweithio tîm, trefnu a chyfathrebu da a'r gallu i weithio'n effeithiol gyda phartneriaid lluosog, gan roi momentwm cynyddol tuag at
- weithio mewn partneriaeth
- Sgiliau rheoli staff rhagorol
- Profiad o ddylunio, cynllunio a gwerthuso prosiectau
- Y gallu i ysgrifennu, adroddiadau technegol clir, cryno a'r gallu i gyfathrebu ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd
- Sgiliau negodi, dylanwadu ac ymgysylltu, gan gynnwys delio â barn a safbwyntiau gwrthdaro
- Sgiliau TG rhagorol gan gynnwys defnyddio cymhwyster neu achrediad cydnabyddedig mewn rheoli prosiectau (e.e. PRINCE2, achrediad APM) cymwysiadau GIS, Microsoft Office Outlook, Word, Excel a Teams a'r defnydd o offer ar-lein ar gyfer rhannu dogfennau a chydweithio

**Dymunol**

- Gwybodaeth gyfredol am faterion cadwraeth bioamrywiaeth cenedlaethol a rhyngwladol, yn enwedig cadwraeth gylfinir a'u gofynion ecolegol
- Profiad o weithredu trefniadau llywodraethu effeithiol
- Chwaraewr tîm, yn barod i gynnig cefnogaeth ac ymateb i geisiadau ad hoc am help gan gydweithwyr
- Sgiliau rhyngbersonol i nodi a lliniaru aflonyddwch a diogelu risg enw da
- Y gallu i weithio'n annibynnol, blaenoriaethu llwyth gwaith a chwrdd â dyddiadau cau, gyda lefel uchel o ymreolaeth dros raglen waith o ddydd i ddydd
- Parodrwydd i deithio'n helaeth o amgylch Cymru ac weithiau ymhellach i ffwrdd (yn bennaf y DU a gwledydd eraill yn Ewrop)
- Mae'n siarad Cymraeg neu'n barod i ddysgu iaith gyfathrebu sylfaenol
- Cariad at y gylfinir.

Nodyn ar ofyniad iaith Gymraeg
Sylwer: Os nad ydych yn bodloni'r Gofynion Iaith Gymraeg a bennwyd, yna mae'r Awdurdod yn cynnig amrywiaeth o opsiynau dysgu a chymorth staff i'ch helpu i fodloni'r gofynion hyn yn ystod eich cyflogaeth gyda ni.





# GWYBODAETH YCHWANEGOL

Hawl gwyliau blynyddol
25 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal â 8 gŵyl gyhoeddus a 2 ddiwrnod statudol ychwanegol, pro rata. Mae hawl gwyliau yn codi bob blwyddyn hyd at 30 diwrnod y flwyddyn ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth. Os ydych chi'n symud o wasanaeth Awdurdod allanol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, rydych chi'n gallu trosglwyddo'ch hawl gwyliau a gronnwyd (a gronnwyd yn sgil hyd gwasanaeth) hyd at uchafswm o 30 diwrnod.

Pensiwn
Gweithredir cynllun pensiwn Llywodraeth Leol safonol; mae'r gweithiwr cyflogedig yn cyfrannu 5.5% (hyd at £16,501) sy'n codi i 5.8% (£16,501) o'u horiau cytundebol a weithiwyd ac ar hyn o bryd mae'r cyflogwr yn cyfrannu 20.9%.

Lleoliad
Bydd y swydd wedi'i lleoli ym Mhencadlys y Parc Cenedlaethol yn Aberhonddu, ond rydym yn gweithredu trefniadau gweithio hyblyg ac anogir cydbwysedd gwaith/bywyd. Rhaid i wladolion yr AEE a'r Swistir NAD ydynt yn gymwys i wneud cais am hawl i weithio yn y DU o dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, fod â math arall o ganiatâd mewnfudo sy'n eu galluogi i weithio o 1 Ionawr 2021 ymlaen.

Mae'n rhaid derbyn ceisiadau erbyn 11.00 yb ar fore'r 20 Ebrill 2026. Yn anffodus, ni fyddwn yn ystyried ceisiadau hwyr.

Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol nad yw'n arfer gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol gydnabod ceisiadau, na hysbysu ymgeiswyr o ganlyniad eu ceisiadau. Os nad ydym yn cysylltu â chi, ni fydd eich cais wedi bod yn llwyddiannus.

Nodwch a oes gennych anabledd mewn llythyr eglurhaol. Os ydych chi'n bodloni'r meini prawf hanfodol, ac yn cael eich gwahodd am gyfweliad, rhowch wybod i ni am unrhyw ofynion arbennig.
Derbynnir a chroesewir ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg. Ni fydd ceisiadau Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na rhai Saesneg. Byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi ar eich ffurflen gais a ydych am gynnal eich cyfweliad a'ch asesiad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os byddwch yn llwyddiannus, ac yn cyrraedd y cam cyfweld ac yn dymuno cynnal eich cyfweliad drwy gyfrwng y Gymraeg, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd er budd aelodau di-Gymraeg o'r panel.

Noder y bydd yr holl ffurflenni cais a gwybodaeth ategol yn cael eu cadw'n ddiogel am chwe mis ac efallai y byddwn yn cysylltu â chi pe bai swydd addas yn codi. Ar ôl chwe mis, byddwn yn dinistrio pob ffurflen gais a gwybodaeth ategol. Os nad ydych chi am i ni gadw'ch gwybodaeth, rhowch wybod i ni a byddwn yn dinistrio'ch ffurflen gais ar ôl i'r broses recriwtio ddirwyn i ben.

Mae'n Bolisi gan yr Awdurdod i gysylltu â chanolwyr ar ôl gwahodd ymgeiswyr i gyfweliad. A fyddech cystal â nodi unrhyw broblemau y gallai hyn ei achosi ar eich ffurflen gais o dan yr adran berthnasol.Noder bod yn rhaid i chi allu dangos sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf hanfodol a nodir yn y fanyleb person sy'n berthnasol i'r swydd hon wrth lenwi'ch ffurflen gais. Dylech hefyd ddangos sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf dymunol a nodir yn y fanyleb person, ond os nad ydych chi'n bodloni'r holl feini prawf dymunol, peidiwch â gadael i hyn eich rhwystro rhag ymgeisio.

RHEOLWR PROSIECT TIRWEDDAU'R GYLFINIR CYMRU

# DATGANIAD PREIFATRWYDD:

Rydym yn prosesu data personol yn ymwneud â'r rheiny rydym yn eu cyflogi at ddibenion cyflogaeth, i helpu wrth redeg yr awdurdod a/neu er mwyn talu unigolion. Bydd casglu'r wybodaeth hon yn fuddiol hefyd:
·wrth wella rheolaeth data'r gweithlu
·wrth alluogi datblygu darlun cynhwysfawr o'r gweithlu a sut mae'n cael ei ddefnyddio
·wrth roi gwybod am ddatblygu polisïau recriwtio a chadw staff
·wrth ganiatáu gwell modelu a chynllunio ariannol
·wrth alluogi monitro nodweddion penodol sy'n cael eu diogelu

Mae'r data personol yn cynnwys dulliau adnabod megis enw, dyddiad geni, rhif cyflogres (SAP), nodweddion personol megis rhyw, anabledd a grŵp ethnig, ynghyd â chymwysterau, perfformiad ac absenoldeb / gwybodaeth am iechyd galwedigaethol.

Ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth amdanoch gyda thrydydd partion heb eich caniatâd oni fydd y gyfraith yn caniatau neu'n mynnu inni ei rhannu er mwyn rheoli eich cytundeb cyflogaeth gyda ni. Pan fyddwn yn rhannu'ch data, gwneir hynny drwy gyfrwng meddalwedd e-bost wedi'i amgryptio neu ffeiliau gyda chyfrinair wedi'i ddiogelu. Mae'n ofynnol inni rannu rhywfaint o'ch data personol gyda:
·HMRC
·Gwasanaethau AD a Cyflogres gan gyrff allanol (gyda Chyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd)
·Pensiynau Cyngor Sir Powys sy'n gweinyddu cynllun pensiwn yr Awdurdod
·Archwilio Llywodraeth Leol a thimau darganfod twyll

Rydym yn storio gwybodaeth am ymgeiswyr am swyddi am 6 mis ac am weithwyr am 7 mlynedd ar ôl gorffen cyflogaeth. Caiff data eu storio'n electronig ar weinyddion BBNPA. Mae cyfyngiadau mynediad ar gofnodion gweithwyr, sy'n golygu mai staff AD yn unig sy'n gallu eu gweld a'u prosesu. Caiff cofnodion ffisegol eu storio yn y swyddfa AD, sydd dan glo ac mewn cypyrddau ffeilio wedi'u cloi.
Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth am y ffordd rydym yn storio'ch data personol a'u defnyddio, neu os hoffech ofyn am i'ch manylion gael eu symud, cysylltwch â'r Swyddog AD.

Rheolwr data: Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu LD3 7HP
Cyswllt: Jessica Holifield, Swyddog AD
Ffôn : 01874 620420

Fel rhan o unrhyw broses recriwtio, bydd yr Awdurdod yn casglu ac yn prosesu data personol yn ymwneud ag ymgeiswyr am swyddi. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i fod yn dryloyw ynglŷn â'r ffordd mae'n casglu'r data hynny a'u defnyddio ac i fodloni ei rwymedigaethau ar ddiogelu data.

# DATGANIAD PREIFATRWYDD:

Pa wybodaeth y mae'r Awdurdod yn ei chasglu?

Bydd yr Awdurdod yn casglu amrywiol wybodaeth amdanoch, sy'n cynnwys:-
·eich enw, eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn;
·manylion am eich cymwysterau, eich sgiliau, eich profiad a'ch hanes cyflogi;
·gwybodaeth am lefel gyfredol eich tâl;
·gwybodaeth a oes gennych anabledd neu beidio a bod angen i'r Awdurdod wneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer yn ystod y broses recriwtio;
·gwybodaeth am eich hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig; a
·gwybodaeth am gyfle cyfartal, gan gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad ethnig, rhywedd, iechyd, a chrefydd neu gred.

Bydd yr Awdurdod hefyd yn casglu'r wybodaeth hon mewn amrywiol ffyrdd. Er enghraifft, gall data fod ar gael mewn ffurflenni cais, CV neu grynodebau, wedi'u casglu o'ch pasbort neu ddogfennau adnabyddiaeth eraill, neu eu casglu drwy gyfweliadau neu fathau eraill o asesiadau, gan gynnwys profion ar-lein.

Bydd yr Awdurdod hefyd yn casglu data personol amdanoch oddi wrth drydydd partïon, megis geirdaon a ddarperir gan gyn gyflogwyr a gwybodaeth o archwiliadau cofnodion troseddol. Bydd yr Awdurdod yn ceisio cael gwybodaeth gan drydydd partïon dim ond pan fyddwch wedi cael cynnig swydd, a chewch wybod ei fod yn gwneud hynny.

Caiff data eu storio mewn amrywiaeth o wahanol fannau, gan gynnwys yn eich cofnod ymgeisio, mewn systemau rheolaeth AD ac ar systemau TG eraill (gan gynnwys e-bost).
Pam mae'r Awdurdod yn prosesu data personol?

Mae angen i'r Awdurdod brosesu data i gymryd camau ar eich cais cyn llunio cytundeb gyda chi. Mae angen iddo brosesu'ch data hefyd i lunio cytundeb gyda chi.

Mewn rhai achosion mae angen i'r Awdurdod brosesu data er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol. Er enghraifft, mae'n ofynnol iddo archwilio hawl ymgeisydd llwyddiannus i weithio yn y Deyrnas Unedig cyn i gyflogaeth ddechrau.

Mae gan yr Awdurdod ddiddordeb cyfreithlon mewn prosesu data personol yn ystod y broses recriwtio ac mewn cadw cofnodion o'r broses. Mae prosesu data oddi wrth ymgeiswyr am swyddi yn caniatáu i'r Awdurdod reoli'r broses recriwtio, asesu a chadarnhau addasrwydd ymgeisydd ar gyfer ei gyflogi, a phenderfynu i bwy i gynnig swydd. Gall fod angen i'r Awdurdod brosesu data hefyd oddi wrth ymgeiswyr am swydd i ymateb i hawliadau cyfreithiol ac amddiffyn yn eu herbyn.

Bydd yr Awdurdod yn prosesu gwybodaeth am iechyd os bydd angen iddo wneud addasiadau rhesymol yn y broses recriwtio ar gyfer ymgeisydd sydd ag anabledd. Diben hyn yw cyflawni ei rwymedigaethau ac ymarfer hawliau penodol mewn cysylltiad â chyflogaeth.

# DATGANIAD PREIFATRWYDD:

Lle bydd yr Awdurdod yn prosesu categorïau arbennig eraill o ddata, megis gwybodaeth am darddiad ethnig, rhywedd, iechyd neu grefydd neu gred, gwneir hynny er mwyn monitro cyfle cyfartal.

Ar gyfer rhai swyddi, mae'n ofynnol i'r Awdurdod geisio cael gwybodaeth am euogfarnau troseddol a throseddau. Lle bydd yr Awdurdod yn ceisio cael y wybodaeth hon, mae'n gwneud hynny am fod angen iddo gyflawni ei rwymedigaethau ac ymarfer hawliau mewn cysylltiad â chyflogaeth.

Ni fydd yr Awdurdod yn defnyddio'ch data at unrhyw ddiben arall heblaw'r ymarfer recriwtio rydych wedi gwneud cais amdano.

Pwy sy'n cael gweld data?

Caiff eich gwybodaeth ei rhannu'n fewnol ar gyfer yr ymarfer recriwtio. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r tîm AD a recriwtio, cyflenwyr sy'n rhan o'r broses recriwtio, cyfwelwyr sy'n rhan o'r broses recriwtio, rheolwyr yn y maes busnes lle mae swydd wag a staff TG os bydd angen iddynt weld y data wrer mwyn cyflawni eu swyddogaeth.

Ni fydd yr Awdurdod yn rhannu eich data gyda thrydydd partion oni fydd eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus, neu os bydd angen hynny dan y gyfraith. Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais yn amodol ar eirdaon, bydd yr Awdurdod wedyn yn rhannu'ch data gyda chyn gyflogwyr i gael geirdaon ar eich cyfer, ac os bydd natur y swydd yn mynnu hynny, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gael yr archwiliadau cofnodion troseddol angenrheidiol.
Ni fydd yr Awdurdod yn trosglwyddo'ch data y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop.

Sut mae'r Awdurdod yn diogelu data?

Mae'r Awdurdod yn cymryd diogelwch eich data o ddifrif calon. Mae ganddo bolisïau a dulliau rheoli mewnol ar waith i sicrhau na chaiff eich data eu colli, eu dinistrio'n ddamweiniol, eu camddefnyddio na'u datgelu, ac ni ellir eu gweld ond gan ein gweithwyr wrth gyflawni eu dyletswyddau'n briodol.

Pa mor hir fydd yr Awdurdod yn cadw data?

Os na fydd eich cais am waith yn llwyddiannus, bydd yr Awdurdod yn cadw'ch data ar ffeil am chwe mis ar ôl diwedd y broses recriwtio a'r cyfleoedd cyflogaeth perthnasol. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw caiff eich data eu dileu neu eu dinistrio.
Os bydd eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus, caiff data personol a gesglir yn ystod y broses recriwtio eu trosglwyddo i'ch ffeil personnel a'u cadw yn ystod eich cyflogaeth. Bydd y cyfnodau pan gaiff eich data eu cadw yn cael eu darparu ichi mewn hysbysiad preifatrwydd newydd.

Eich hawliau

Fel gwrthrych data, mae gennych nifer o hawliau. Gallwch:
·weld eich data a chael copi ohonynt drwy wneud cais;
·ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad newid data anghywir neu anghyflawn;
·ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ddileu neu roi'r gorau i brosesu eich data lle nad oes angen y data mwyach at y dibenion y'u cafwyd yn wreiddiol;
·gwrthwynebu prosesu eich data lle bydd yr Awdurdod yn dibynnu ar ei ddiddordebau cyfreithlon fel y sail gyfreithiol dros brosesu; a

## RHEOLWR PROSIECT TIRWEDDAU'R GYLFINIR CYMRU

# DATGANIAD PREIFATRWYDD:

·gofyn i'r Awdurdod roi'r gorau i brosesu data am gyfnod os bydd data yn anghywir neu os bydd anghytundeb a yw eich buddiannau chi yn drech na seiliau cyfreithlon yr Awdurdod dros brosesu data.
Os hoffech ymarfer unrhyw rai o'r hawliau hyn, cysylltwch ag Jessica Holifield, Swyddog AD. E-bost: jessica.holifield@beacons-npa.gov.uk Gallwch wneud cais am weld gan rywun sy'n destun data drwy gysylltu - E-Bost: Diogelu Data Dileu dpo@beacons-npa.gov.uk
Os credwch nad yw'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'ch hawliau diogelu data, gallwch gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth.

Beth os na fyddwch yn darparu data personol?
Does dim rhwymedigaeth statudol na chontractiol arnoch i ddarparu data i'r Awdurdod yn ystod y broses recriwtio. Fodd bynnag, os na ddarparwch y wybodaeth, hwyrach y bydd yr Awdurdod yn methu â phrosesu eich cais yn briodol, neu ddim o gwbl.
Does dim rhwymedigaeth arnoch i ddarparu gwybodaeth at ddibenion monitro cyfle cyfartal, ac ni fydd hynny'n cael effaith ar eich cais os dewiswch beidio â darparu gwybodaeth felly.

